Mr Alun Cairns AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Ebrill 2009

Annwyl Alun

**DATGANIAD YN Y CYFARFOD LLAWN AR 24 MAWRTH 2009 AR YR YMCHWILIAD CYHOEDDUS I'R ACHOSION E.COLI**

Mewn ymateb i'ch cwestiwn yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n gofyn i mi ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r potensial i erlyn Arolygwyr hylendid bwyd.

Nid oes darpariaeth benodol ar hyn o bryd yn y ddeddfwriaeth hylendid bwyd i erlyn arolygwyr o'r fath. Byddai arolygydd sydd wedi methu â chwblhau'i swyddogaethau yn wynebu achos disgyblu, ond nid yw methiannau o'r fath yn gyfystyr â throseddau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

Gall swyddog cyhoeddus gyflawni'r drosedd gyfraith gwlad o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus os bydd yn mynd ati'n fwriadol i esgeuluso'i ddyletswyddau a/neu'n mynd ati i gamymddwyn yn fwriadol heb unrhyw esgus rhesymol neu ymgais i'w gyfiawnhau, ac i'r graddau hynny lle bod y cyhoedd yn colli pob ffydd yn y swyddog hwnnw. Trosedd dditiol ddifrifol iawn yw hon sydd â'r ddedfryd uchaf o garchar am oes. Mae'r canllawiau ar gyfer erlyn achosion o'r fath yn nodi y dylid cadw'r cyhuddiad o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus ar gyfer achosion o gamymddwyn difrifol neu fethu â chyflawni dyletswydd yn fwriadol ac mewn ffordd sy'n debygol o niweidio buddiant cyhoeddus.

O dan delerau'r ddeddfwriaeth berthnasol ni allai'r ymchwiliad cyhoeddus ystyried euogrwydd unigolyn, ac o ganlyniad ni wnaethpwyd hynny. Yn yr un modd, datganiad y gyfraith yw fy sylwadau uchod mewn perthynas â throsedd gyfraith gwlad o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus, ac ni ddylid dehongli eu bod yn cynnig safbwynt am eu perthnasedd i'r materion a drafodwyd gan Ymchwiliad Pennington.

Yn gywir

Carwyn Jones AC